## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Clinig y Gyfraith Abertawe yn rhan o Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae Clinig y Gyfraith Abertawe wedi'i gofrestru gyda LawWorks, sy’n gwmni buddiant cyhoeddus, ac mae'n gweithredu fel Clinig y Gyfraith sy'n darparu cyngor a chymorth cychwynnol i'r cyhoedd. Lle bo'n briodol, mae'n gweithio ar achosion fel rhan o'r modiwlau Addysg Gyfreithiol Glinigol a Phrosiect Camwedd Cyfiawnder, yn ogystal â darparu cyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli. Mae'r Clinig yn gyfrifol am gasglu a phrosesu data personol, gan gynnwys data a ddiffinnir fel data sensitif gan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) 2016/679. Felly, Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau cyfranogwyr yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 y DU (Y Ddeddf) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd (y Rheoliad). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r unigolyn hwnnw yn dataprotection@abertawe.ac.uk

Rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i gadw, storio a defnyddio data personol. Yn y ddogfen hon, rydym yn esbonio pam rydym yn casglu data unigolion ar gyfer Clinig y Gyfraith Abertawe, sut rydym yn ei brosesu a'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau diogelwch data ar bob cam.

Caiff yr holl ddata a gesglir gan Glinig y Gyfraith Abertawe ei brosesu a'i storio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd.

### Pa fath o wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol am gleientiaid drwy'r ffurflen cais am apwyntiad cychwynnol:

- Enw
- Manylion cyswllt
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Cod post cartref
- Ethnigrwydd
- Cenedligrwydd
- Anabledd
- Disgrifiad byr o'r broblem gyfreithiol
- A ydynt wedi derbyn cyngor cyfreithiol o'r blaen ac, os felly, ble

Wedyn, ar gyfer aelodau'r cyhoedd y gallwn eu cynghori, byddwn yn casglu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol mewn cyfweliad:

- Amrediad oedran
- Amrediad incwm
- Salwch tymor hir
- Lefel addysgol
- Nifer dibynyddion
- Budd-daliadau lles a dderbynnir
- Maint yr aelwyd

- Tueddfryd rhywiol

## Cydsyniad

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata heb gydsyniad pendant. Yn achos plant 15 oed neu'n iau, rydym yn casglu'r data hwn drwy riant/gofalwr. Yn achos unigolion 16 oed neu'n hŷn, rydym yn ei gasglu'n uniongyrchol gan yr unigolyn.

Mae gennych hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl unrhyw bryd, a gallwch wneud hyn drwy e-bostio lawclinic@abertawe.ac.uk.

**Pam rydym yn casglu data unigolion a sut rydym yn ei ddefnyddio**

Rydym yn casglu data am unigolion am y pedwar prif reswm canlynol.

1. At ddibenion monitro, sy'n caniatáu i ni fodloni gofynion adrodd allanol i gyrff ymgynghorol megis LawWorks. Mae hefyd yn rhoi darlun clir i ni o'r gweithgareddau rydym yn eu darparu a'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw i'n helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd y rhai a allai elwa fwyaf o'n gweithgareddau.
2. At ddibenion gwerthuso, sydd yn ein helpu i asesu effeithiolrwydd y Clinig wrth ehangu mynediad i gyfiawnder, ac i ddefnyddio data dienw at ddiben ymchwil i'r galw am wasanaethau cyfreithiol, yn enwedig yn ardal Bae Abertawe.
3. Er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch ein holl gleientiaid, e.e. sicrhau ein bod yn ymwybodol o gyflyrau meddygol.
4. At ddibenion asesu a yw'n briodol i ni roi cyngor ar y mater dan sylw ac i hwyluso darparu cyngor i gleientiaid y Clinig.

**Sut mae data'n cael ei brosesu**

- Mae Clinig y Gyfraith Abertawe'n gweithio'n uniongyrchol gydag aelodau'r cyhoedd. Mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r Clinig naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn. Mae'n rhaid i aelodau'r cyhoedd gwblhau ffurflen apwyntiad yn gyntaf. Anfonir y ffurflen hon i'r Clinig drwy e-bost neu'r post a chaiff y data ei deipio ar daenlen ddiogel.
- Cedwir data'r cleient ar daenlen ddiogel nes bod y cleient wedi derbyn ei lythyr o gyngor cychwynnol, ac wedyn caiff y data ei ddileu.
- Cedwir ffeil y cleient (y gwrthrych ffisegol sy'n storio manylion personol y cleient) mewn lle storio diogel dan glo am gyfnod nad yw'n hwy na'r hyn a nodir yn ein polisi rheoli cofnodion (gweler isod).
- Ni chaiff NEB ond y myfyrwyr sy'n cynghori'r cleient a staff y Clinig fynediad i ffeil y cleient, a hynny mewn amgylchedd diogel yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, tra bydd y llythyr cyngor cychwynnol yn cael ei lunio.

**Am faint o amser caiff eich gwybodaeth ei chadw?**

Bydd y Clinig yn cadw'ch gwybodaeth am gyfnod nad yw'n hwy na chwe blynedd, yn unol â'n polisi rheoli cofnodion.

**Rhannu'ch data**

Gellir rhannu'ch data ag aelodau eraill o staff y clinig, gan gynnwys myfyrwyr gwirfoddoli a gwirfoddolwyr proffesiynol.

Caiff data dienw cyffredinol ei ddadansoddi at ddibenion ymchwil ac ar gyfer cyhoeddiadau'r Clinig megis yr adroddiad blynyddol. Bwriedir i'n cyhoeddiadau gael eu darllen gan y gymuned academaidd, a byddwn yn eu dosbarthu i'n rhanddeiliaid, e.e. darpar arianwyr, darpar sefydliadau partner, ayb.

Ni chaiff data personol ei rannu â neb y tu allan i'r Brifysgol, ac ni chaiff unrhyw ddata ei drosglwyddo dramor.

**Diogelwch eich gwybodaeth**

Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn gosod dyletswydd arnom i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, a chymerir yr holl gamau priodol i atal mynediad a datgeliad heb awdurdod. Ni chaiff neb fynediad i'ch gwybodaeth, ac eithrio'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gyrchu rhannau o'ch gwybodaeth, neu'ch holl wybodaeth. Bydd gwybodaeth electronig amdanoch yn cael ei diogelu trwy gyfrineiriau a chyfyngiadau diogelwch eraill, a chedwir ffeiliau papur mewn ardaloedd diogel lle rheolir mynediad.

Gall rhai gweithgareddau prosesu gael eu gwneud ar ran y Brifysgol gan sefydliad sydd wedi'i gontractio at y diben hwnnw. Bydd rhwymedigaeth ar sefydliadau sy'n prosesu data ar ran y Brifysgol i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

**Pa hawliau sydd gennych?**

Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu'ch gwybodaeth bersonol, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad i'ch gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Os oes gennych unrhyw bryderon am ddefnyddio eich data at y dibenion hyn neu os hoffech gael copi o'r data sydd gennym amdanoch chi, dylech anfon ceisiadau neu wrthwynebiadau ysgrifenedig at Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Abertawe
Abertawe SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

**Cwestiynau ychwanegol**?

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut rydym yn prosesu data unigolion at ddiben monitro, mae croeso i chi gysylltu â Richard Owen, Cyfarwyddwr Clinig y Gyfraith, yn w.r.owen@abertawe.ac.uk neu **01792 51 3140.**

**Sut i gwyno**

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, yn y lle cyntaf, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn anfodlon o hyd wedi hynny, bydd gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth a gofyn am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer, SK9 5AF

www.ico.org.uk

Crëwyd: Ebrill 2018